Munud i Feddwl

Camu 'Mlaen

Wrth ymdeimlo â phwysau methiant cyhoeddus, y tueddiad yn grefyddol, ac yn wleidyddol yw adolygu'r sefyllfa; ailstrwythuro, cadarnhau'r weledigaeth a darparu strategaeth newydd (llun) yn sail i gynllun gweithredu llawer mwy effeithiol, a'r cyfan oll, er mwyn bod *ar flaen y gad* ac yn *fodern i'r 21ain Ganrif*. Mae'n rhyfedd sut mae sefydliadau crefyddol a gwleidyddol yn defnyddio'r union un derminoleg wrth *adolygu'r sefyllfa*.

Nid wyf yn amau gwerth ailstrwythuro crefyddol na gwleidyddol, nac yn amau amcanion da'r rheini sydd yn gwthio am newid. Nid wyf ychwaith yn amau gwerth newid, yn wir 'rwy'n dyheu am newid, yn ysu amdano. Ond, dros amser euthum i ddechrau amau, os all sefydliad - oherwydd natur gynhenid unrhyw a phob 'sefydliad' - *newid* go iawn. Mae newid, o ddifrif, yn golygu na fydd y sefydliad byth eto'r hyn ydyw nawr, ac anodd hynny i'r bobl sydd a'u byw a'u bywoliaeth ymhlyg yn y sefydliad. O'r herwydd, er fynych sôn am newid sefydliad, erys y sefydliad yn ei hanfod, heb newid. (Llun: Cynllunio Strategaeth .. i fynd i ble?)

Yn ddiweddar, mi ddois ar draws yr ychydig eiriau hyn ar hysbysfwrdd mewn ward ysbyty – rhan o sefydliad arall sydd yn wynebu ar newid mawr. Maddeued y Saesneg: "*We trained hard – but it seemed that every time we were beginning to form into teams, we would be reorganized. I was to learn later in life that we tend to meet any new situation be re-organizing; and a wonderful method it can be for creating the illusion of progress, while producing confusion, inefficiency and demoralization*."



Priodolir y geiriau i Gaius Petronius Arbiter (c. 22-67; llun), a buasai cael hynny'n wirionedd diamwys yn ddiweddglo taclus i'r myfyrdod hwn; ond does dim tystiolaeth o gwbl mae Gaius Petronius Arbiter yw awdur y geiriau! Yn wir, tebyg iawn mae milwr Prydeinig, dienw - wedi ei drwytho yn y Clasuron mae'n siŵr - sydd biau'r geiriau go iawn. Gosodwyd hwy ar bapur, a gosod y papur ar hysbysfwrdd barics milwrol yng Ngorllewin yr Almaen goresgynedig, wedi diwedd yr Ail Rhyfel Byd, fel adwaith i weinyddiaeth gloff cadfridogion y cyfnod.

Yr hyn sydd wirioneddol rhyfedd yw bod cymaint o awduron parchus, mewn llyfrau ac erthyglau swmpus yn priodoli'r geiriau hyn i Gaius Petronius Arbiter wrth eu dyfynnu. Mae'r rhyngrwyd yn drwch o esiamplau. Mae'r ffaith ein bod ni ystyried y geiriau hyn i fod yn hen - er gwaethaf pob tystiolaeth i'r gwrthwyneb - yn awgrymu efallai, ein bod ni'n gweld yr hyn a fynegir ynddynt fel hen wirionedd, yn oesol gyfoes.

Aeth 100 mlynedd heibio ers suddo'r *Titanic* yn yr Iwerydd. Er gwybod y ddameg am ad-drefnu'r cadeiriau haul, erys y wers heb ei ddysgu. *OLlE*

25 Ionawr 2012